MAI 2023

# TROSOLWG O GYNNYDD AR Y CYNLLUN CYFLAWNI AR GYFER CYMRU O BLAID POBL HŶN: EIN STRATEGAETH AR GYFER CYMDEITHAS SY'N HENEIDDIO

## TROSOLWG O GYNNYDD

Mae'r canlynol yn darparu gwybodaeth am feysydd cynnydd allweddol wrth weithredu'r cynllun cyflawni ar gyfer ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio. Mae'r Tîm Hawliau Pobl Hŷn yn arwain y strategaeth mewn cydweithrediad â thimau ledled Llywodraeth Cymru a phartneriaid allanol yn y sector statudol a gwirfoddol.

Mae'r strategaeth yn cael ei gweithredu diolch i gymorth ac arweiniad pwysig gan Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio.

## CREU CYMRU O BLAID POBL HŶN

**Cymunedau o Oed-Gyfeillgar -** Mewn ymateb i'r her fyd-eang o boblogaethau sy'n heneiddio, mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi sefydlu Rhwydwaith o Ddinasoedd a Chymunedau o Blaid Pobl Hŷn. Mae'r Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yn cydnabod y Rhwydwaith hwn ac yn dyheu am i Gymru fod o oed-gyfeillgar, ble bynnag mae pobl yn byw. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 yn ymrwymo i ariannu swydd bwrpasol ym mhob awdurdod lleol er mwyn sbarduno'r gwaith o wneud Cymru'n genedl sydd o blaid pobl hŷn.

Ym mis Ebrill 2022, fe wnaeth y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wireddu'r ymrwymiad hwn trwy gyhoeddi cyllid gwerth £1.1 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol ledled Cymru i gynorthwyo eu gwaith o greu Cymru Oed-Gyfeillgar. Bwriad y cyllid hwn oedd cynyddu'r swm sylfaenol o £550,000 a ddyfarnwyd ddiwedd 2021.

Mae'r cyllid yn cynorthwyo awdurdodau lleol i benodi swyddog arweiniol i weithio gyda phobl hŷn yn eu cymunedau, gan gynllunio a darparu gwasanaethau lleol sy'n diwallu eu hanghenion ac yn gwireddu eu dyheadau. Mae rhoi llais a phrofiadau pobl hŷn wrth wraidd y broses o lunio polisïau yn rhan allweddol o greu Cymru Oed-Gyfeillgar.

Cyflwynodd pob awdurdod lleol yng Nghymru gynllun gwaith yn amlinellu eu gweithgareddau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23. Mae swyddogion ac Arweinwyr Oed-Gyfeillgar yn siarad yn rheolaidd am sut mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a pha gymorth sydd ei angen. Trwy edrych ar y cynlluniau gwaith, mae swyddogion wedi gallu adnabod y themâu a'r heriau cyffredin sy'n wynebu pob awdurdod.

Mae pob awdurdod lleol yn ystyried ei ddull o wneud cais i Rwydwaith Dinasoedd a Chymunedau Oed-Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd. Yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ymaelodi â'r rhwydwaith oedd Caerdydd yn 2022, ac fe wnaeth Sir y Fflint gyflwyno cais ym mis Mawrth 2023. Mae swyddogion wedi sicrhau bod awdurdodau lleol eraill yn gallu dysgu o brofiadau Caerdydd, gan hwyluso seminarau ar-lein i gefnogi hyn. Mae swyddogion yn hwyluso cyfarfodydd chwarterol hefyd er mwyn rhoi cyfle i Arweinwyr Oed-Gyfeillgar gysylltu â'i gilydd, gan rannu syniadau ac arferion da. Bydd cyfarfodydd rhanbarthol yn cael eu cynnal o fis Ebrill 2023, gyda'r potensial i awdurdodau lleol cyfagos gydweithio a datblygu eu gweithgareddau.

Dangosodd cynlluniau gwaith yr awdurdodau lleol fod angen gwneud mwy o waith i nodi cyfleoedd iechyd a llesiant ar gyfer pobl yn eu cymunedau. Er mwyn creu cysylltiadau a rhannu arferion da, mae swyddogion wedi sefydlu cysylltiadau â chyrff chwaraeon, diwylliant a chelfyddydol allweddol fel Chwaraeon Cymru, Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a Chyngor Celfyddydau Cymru. Trwy ddefnyddio'r cysylltiadau hyn, rydym wedi llunio papur briffio ar gyfer yr Arweinwyr Oed-Gyfeillgar, gan fanylu ar yr ystod o gyfleoedd sydd ar gael i bobl hŷn ledled Cymru. Mae'r papur briffio hwn wedi cynnwys enghreifftiau amrywiol o'r Gronfa Iach ac Egnïol.

Hefyd, mae'r Tîm Hawliau Pobl Hŷn yn cyhoeddi cylchlythyr Cymru Oed-Gyfeillgar bob chwarter, sy'n hysbysu ein rhanddeiliaid am y gwaith parhaus sy'n cael ei wneud i greu dinasoedd a chymunedau Oed-Gyfeillgar ledled Cymru, a nodi cynnydd y Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio.

Ym mis Mai 2022, er mwyn cryfhau perthynas Llywodraeth Cymru ag awdurdodau lleol yn ymwneud â'r agenda Oed-Gyfeillgar, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol at bob cynghorydd lleol etholedig newydd, yn gofyn iddynt ystyried fod yn Hyrwyddwyr Oed-Gyfeillgar. Cynghorwyr lleol etholedig yw Hyrwyddwyr Oed-Gyfeillgar sy'n gallu symud yr agenda hon ymlaen a gweithredu fel llais i bobl hŷn yn Siambr y Cyngor.

Ar hyn o bryd, mae gan 19 o awdurdodau lleol Hyrwyddwr Oed-Gyfeillgar penodol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt eisoes yn cydweithio â'r Arweinwyr Oed-Gyfeillgar yn eu hardal leol. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfleoedd i'r Hyrwyddwyr Oed-Gyfeillgar gydweithio ar lefel genedlaethol a rhwydweithio gyda'i gilydd, yn ogystal â gweithio gyda'u swyddogion lleol.

Ers 2019, mae'r Comisiynydd wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i ddatblygu fel cymunedau oed-gyfeillgar a gwneud cais i fod yn aelod o Rwydwaith Byd-eang Dinasoedd a Chymunedau Oed-Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd.

Yn 2021, fe wnaeth y Comisiynydd ymaelodi â'r Rhwydwaith fel Aelod Cyswllt, sy'n caniatáu i'r Comisiynydd ddarparu cymorth gweinyddol uniongyrchol i awdurdodau lleol yn ymwneud â'r broses ymgeisio, ac i hwyluso'r broses o rannu'r hyn sydd wedi'i ddysgu gydag aelodau cyswllt eraill.

Dywedodd Arweinydd Heneiddio'n Dda y Comisiynydd: "Mae'r cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ar gyfer ymgysylltiad oed-gyfeillgar yn galluogi pobl hŷn, eu cymunedau a'r darparwyr gwasanaethau sy'n eu cynorthwyo, i wneud gwaith hanfodol ar y cyd i lunio sut mae'r lleoedd maen nhw'n byw ynddynt yn datblygu i fod o blaid pobl hŷn."

O ganlyniad i ddatblygu *Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio* ac ymrwymiad cyllid gwerth £1.1 miliwn i gefnogi Cymunedau Oed-Gyfeillgar tan 2026, mae gwaith i gefnogi pobl hŷn yng Nghymru wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r broses o ddarparu cyllid wedi aildanio ymrwymiad rhanddeiliaid yng Nghymru i sicrhau bod Cymru'n lle gwych i heneiddio. Mae'r prosiectau, y mentrau, ac ehangder yr ymgysylltiad ledled y wlad, gan gynnwys gyda phobl hŷn a oedd yn anos eu cyrraedd cyn hyn, yn drawiadol.

## HYRWYDDO DULL SY'N SEILIEDIG AR HAWLIAU

**Ymgyrch Hawliau Pobl Hŷn -** fe wnaeth Llywodraeth Cymru ariannu Age Cymru i gyflwyno ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl hŷn trwy weithdai rhyngweithiol, negeseuon ar-lein, ymgyrchoedd posteri a hysbysebion ar blatfformau'r cyfryngau allweddol. Fe wnaeth yr ymgyrch gychwynnol bara tan fis Awst 2022; fodd bynnag, mae pecyn cymorth wedi'i greu er mwyn parhau i godi ymwybyddiaeth am flynyddoedd i ddod. Mae'r Athro John Williams wedi hyfforddi 7 llysgennad i ddefnyddio'r pecyn cymorth yn ymwneud â hawliau pobl hŷn, a bydd yn parhau i gynnal gweithdai ledled Cymru. Mae gwirfoddolwyr wedi cael eu recriwtio o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

## NOD 1: GWELLA LLESIANT

**Gofalwyr Di-dâl** - ers mis Ionawr 2022, mae £42m wedi'i ddyrannu i gefnogi gofalwyr di-dâl. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys £29 miliwn i roi taliad gwerth £500 i ofalwyr di-dâl sy'n derbyn Lwfans Gofalwyr yn 2022; £4.5 miliwn i barhau â'r Gronfa Gymorth i Ofalwyr tan 2025, a £9 miliwn i sefydlu'r Gronfa Seibiannau Byr dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r cyllid hwn yn ychwanegu at y setliad cyllid blynyddol ar gyfer awdurdodau lleol trwy'r Grant Cynnal Refeniw sydd wedi'i gynyddu yn 2023-24.

Yn 2023-24, darparwyd £1m i gefnogi gofalwyr di-dâl pan fydd y person y maent yn gofalu amdano yn cael ei dderbyn i'r ysbyty neu'n cael ei ryddhau o'r ysbyty. O fis Ebrill 2023 ymlaen, bydd y cyllid hwn yn cael ei ddyrannu trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Hefyd, mae gofalwyr di-dâl yn gallu derbyn grantiau bach a chymorth parhaus trwy ein buddsoddiad yn y Gronfa Gymorth i Ofalwyr. O'r flwyddyn ariannol hon ymlaen, mae £9m yn cael ei fuddsoddi dros dair blynedd i sefydlu cynllun seibiannau byr

arloesol ar gyfer gofalwyr di-dâl ar incwm isel sy’n ei chael hi’n anodd ymdopi â’u cyfrifoldebau gofalu.

Bydd y cynllun yn cynyddu cyfleoedd i ofalwyr di-dâl gael seibiant o'u dyletswyddau gofalu a byw eu bywydau eu hunain yn ogystal â gofalu. Gwasanaeth, cymorth neu brofiad sy’n helpu gofalwr di-dâl i dreulio amser i ffwrdd o’i gyfrifoldebau gofalu yw seibiant byr.

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi cael ei benodi'n gorff cydgysylltu cenedlaethol i sefydlu a goruchwylio’r cynllun, ac mae'n cydweithio â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, awdurdodau lleol a’r trydydd sector ledled Cymru i annog arloesi a hyrwyddo arfer da.

**Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol -** Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyflwyno rhaglen newid rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2027. Mae'r prosiectau'n cael eu goruchwylio gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac maen nhw'n canolbwyntio'n benodol ar gefnogi pobl hŷn. Ymhlith y prosiectau sy'n cael eu hariannu y mae cymorth cymunedol, cadw'n iach gartref, ac addasiadau cyflym i gartrefi.

**Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Meddygon Teulu -** Ers mis Ionawr 2023, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £5 miliwn yn ychwanegol i recriwtio mwy o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a gwella mynediad at ofal yn y gymuned. Nod yr ymgyrch Hyfforddi, Gweithio, Byw yw recriwtio mwy o feddygon teulu mewn ardaloedd yng Nghymru lle mae yna brinder penodol. Cafodd 175 o feddygon teulu ychwanegol eu recriwtio yn 2022.

**Mynediad at wasanaethau meddygon teulu -** Mae Safonau Mynediad y Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol yn cael eu cyflwyno'n raddol er mwyn gwella mynediad at feddygon teulu. Mae'r Ymrwymiad Mynediad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i feddygfeydd fabwysiadu model mynediad cyfun, gan gynnig apwyntiadau o bell, wyneb yn wyneb, brys, ar y dydd ac apwyntiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw. Erbyn mis Mawrth 2022, roedd 89% o feddygfeydd wedi bodloni'r Safonau, ac roedd y Safonau yn orfodol o ddiwedd Mawrth 2023 ymlaen.

**Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru -** mae'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llafur a Phlaid Cymru yn disgrifio uchelgais cyffredin i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol am ddim pryd a lle bynnag y bo’i angen. Sefydlwyd Grŵp Arbenigol sy'n cynnwys aelodau o'r sectorau llywodraeth leol, gofal cymdeithasol, undebau llafur a'r byd academaidd. Tasg y Grŵp oedd paratoi cyfres o argymhellion ar gamau ymarferol y gellir eu cymryd i wireddu'r uchelgais hwn. Y bwriad yw cytuno ar gynllun gweithredu erbyn diwedd 2023. Dyma ddolen i'r Adroddiad Terfynol

## NOD 2: GWELLA GWASANAETHAU AC AMGYLCHEDDAU LLEOL.

**Tai –** Mae'r Gronfa Tai â Gofal yn weithredol, ac mae cyllideb gwerth £60.5m ar gael i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 2022-23 ac yn 2023-24. Mae'r prosiectau sy'n canolbwyntio ar gefnogi **Byw'n Annibynnol** yn cynnwys y canlynol:

- **Gofal a Thrwsio**: Grant refeniw gwerth £4.8m, sef cynnydd o £0.5m o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bydd y cynnydd yn galluogi Asiantaethau Gofal a Thrwsio i ddarparu gwasanaethau ychwanegol mewn perthynas ag achosion cymhleth o ryddhau cleifion o ysbytai. Mae grant cyfalaf Gofal a Thrwsio ar gyfer Addasiadau Ymateb Cyflym wedi cynyddu hefyd, o £1.64m yn 2021-22 i £3m yn 2022-23.
- **Galluogi:** cynyddodd y grant cyfalaf hwn ar gyfer awdurdodau lleol i £6m yn 2022-23 o'i gymharu â £5m yn 2021-22. Bydd y cyllid ychwanegol yn sicrhau bod pob awdurdod lleol yn gallu darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer pob addasiad bach a chanolig heb ddefnyddio prawf modd.
- **Grant Addasiadau Ffisegol:** mae cymdeithasau tai yn derbyn £10.5m o gyllid cyfalaf i ddarparu addasiadau ar gyfer eu tenantiaid.

**Cronfa Trawsnewid Trefi –** mae cyllid ar gyfer datblygu 10 Cynllun Creu Lleoedd mewn trefi wedi'i ddyfarnu hyd yma yn 2022-23. Mae creu lleoedd yn ddull cynllunio sy'n canolbwyntio ar bobl, ac mae'n ymwneud â chynllunio, dylunio a rheoli cymunedau er mwyn hybu iechyd, hapusrwydd a lles pobl. Ar hyn o bryd, mae'r awdurdodau lleol yn gweithio ar gynigion ar gyfer dros 30 o aneddiadau eraill ledled Cymru. Mae swyddogion yn casglu gwybodaeth am y mathau o fethodoleg ymgysylltu cymunedol a ddefnyddiwyd. Bwriedir cyhoeddi Datganiad Sefyllfa ym mis Mai 2023 a sefydlu cyfres o grwpiau i ddatblygu'r camau a nodwyd.

**Trafnidiaeth -** mae deddfwriaeth newydd yn cael ei datblygu i newid sut mae'r diwydiant bysiau yn cael ei reoleiddio ac i wella trafnidiaeth gymunedol a thacsis. Cyhoeddwyd Papur Gwyn yn amlinellu cynlluniau i reoleiddio'r diwydiant bysiau yng Nghymru yn ystod Pasg 2022. Mae diwygio deddfwriaethol yn ganolog i Strategaeth Bws Cymru, ac rydym ar y trywydd iawn i gyflwyno'r bil yn ystod tymor y llywodraeth hon.

Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda'r sector trafnidiaeth gymunedol hefyd. Ar 9 Mawrth cyhoeddwyd papur gwyn ar y Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru). Bydd ein cynigion yn gwireddu ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraeth i foderneiddio'r sector tacsis a cherbydau hurio preifat - gan fynd i'r afael â gweithredu ar draws ffiniau a diwygio'r drefn drwyddedu i wneud gwasanaethau'n fwy diogel, yn fwy gwyrdd, ac yn decach.

## NOD 3: MEITHRIN A CHYNNAL GALLUOGRWYDD POBL

**Gweithwyr hŷn -** ers y pandemig, mae llai o weithwyr hŷn wedi ail-ymuno â'r gweithlu o'i gymharu â grwpiau oedran eraill. Mae hwn yn faes sy'n peri pryder

cynyddol gan fod prinder llafur yn llesteirio adferiad economaidd. Mae academyddion, gwneuthurwyr polisi a phartneriaid yn y trydydd sector yn chwilio am ddulliau o fynd i'r afael â'r materion. Cyfarfu Bwrdd Cyflogadwyedd a Sgiliau Llywodraeth Cymru ar 8 Mawrth i drafod sut i gefnogi pobl hŷn i ailymuno â'r farchnad lafur. Erbyn hyn, mae'r pwnc hwn yn rhan o drafodaeth ehangach ar anweithgarwch economaidd sy'n ystyried dewisiadau ar gyfer camau gweithredu pellach gan Lywodraeth Cymru.

Mae Busnes yn y Gymuned eisoes yn cynnig gwasanaethau amrywiol i annog busnesau i fod yn gynhwysol o ran oedran a chefnogi gweithwyr hŷn. Mae cysylltiadau agosach yn cael eu datblygu gyda Busnes Cymru a busnesau mwy o ran maint.

## NOD 4: TRECHU TLODI SY'N GYSYLLTIEDIG AG OEDRAN

**Manteisio i'r Eithaf ar Incwm** - Rydym wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Manteisio i'r Eithaf ar Incwm. Trwy ddulliau gweithredu trawslywodraethol a thrwy gydweithio ag awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol eraill, bydd y grŵp hwn yn sbarduno gwelliannau yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau lles a thaliadau.

Ym mis Rhagfyr 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ei hymgyrch cyfathrebu integredig genedlaethol newydd - 'Yma i helpu gyda chostau byw'. Nod yr ymgyrch yw rhoi sicrwydd i bobl Cymru bod help a chymorth ar gael i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi yn ariannol oherwydd yr argyfwng costau byw. Mae'r brif Alwad i Weithredu yn cyfeirio pobl at Advicelink Cymru, gan eu hannog i wirio a ydyn nhw'n gymwys i gael rhagor o gymorth ariannol.

Hefyd, trwy Gronfa Gynghori Sengl Llywodraeth Cymru, mae partneriaid yn cydweithio i gyrraedd pobl hŷn er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'u hawliau budd-dal lles. Hyd yma, mae bron i 4,000 o bobl 65+ oed wedi derbyn cymorth i hawlio incwm budd-dal lles gwerth £12m a rheoli dyledion o £1.9m.

Mae pobl hŷn yn grŵp blaenoriaeth allweddol ar gyfer holl wasanaethau'r Gronfa Gynghori Sengl. Mae 33% o'r holl bobl sy'n defnyddio'r Gronfa Gynghori Sengl yn bobl hŷn.

**Gweithgarwch sy'n pontio'r cenedlaethau** – wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Cafodd prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau o bob cwr o Gymru eu harddangos yn ystod wythnos ryngwladol pontio'r cenedlaethau ym mis Ebrill 2022. Arweiniodd y gweithgarwch hwn at ragor o weithgarwch, gan gynnwys sefydlu Caffis Trwsio newydd mewn ardaloedd difreintiedig trwy'r Gronfa Economi Sylfaenol. Nod Caffis Trwsio yw trwsio eitemau yn y cartref a allai gael eu hanfon i safleoedd tirlenwi fel arall. Hefyd, maen nhw'n ceisio cyflawni llawer mwy trwy ddod â chymunedau at ei gilydd a darparu cyfleoedd pwysig i rannu sgiliau a gwybodaeth. Mae'r Caffis

Trwsio newydd yn canolbwyntio ar greu cysylltiadau cymunedol gydag ysgolion cynradd ac uwchradd.

Gan edrych ymlaen at y dathliadau pontio'r cenedlaethau rhyngwladol ym mis Ebrill 2023; a thrwy ddefnyddio dull cydweithio rhwng awdurdodau lleol a chynlluniau Llywodraeth Cymru, mae cynlluniau ar waith unwaith eto i rannu arferion da o bob cwr o Gymru a thaflu goleuni pinc pontio'r cenedlaethau ar adeiladau cyhoeddus allweddol.